Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Agincourt Dental, Trefynwy

**Dyddiad yr arolygiad:** 27 Ebrill 2026

**Dyddiad cyhoeddi:** 28 Gorffennaf 2026

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein **gwefan** neu drwy gysylltu â ni:


**Yn ysgrifenedig:**

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**Neu:**

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


**ISBN Digidol 978-1-80853-074-6**

**© Hawlfraint y Goron 2026**



# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

## Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

## Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

**Rydym yn:**

**Annibynnol** – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

**Gwrthrychol** – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

**Pendant** – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

**Cynhwysol** – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

**Cymesur** – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

## Ein Blaenoriaethau

**Rhoi Pobl yn Gyntaf** – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

**Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd** – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

**Buddsoddi yn Ein Pobl** – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

**Cymryd Camau sydd o Bwys** – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ..... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ..... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ..... 9

    Ansawdd Profiad y Claf ..... 9

    Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ..... 12

    Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... 16

4. Y camau nesaf ..... 19

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... 20

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ..... 21

Atodiad C – Cynllun gwella ..... 22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Agincourt Dental, Trefynwy ar 27 Ebrill 2026. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 21 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd 4 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom gan gleifion yn ymddangos yn yr adroddiad. Oherwydd y nifer isel o ymatebion gan staff, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Dywedodd pob claf fod y gwasanaeth a ddarperir gan Agincourt Dental naill ai'n ‘dda iawn’ neu'n ‘dda’. Roedd y dystiolaeth a welsom yn ystod yr arolygiad yn cyd-fynd â'r adborth a gawsom gan gleifion ynghylch y gofal ag urddas a gawsant drwy gydol eu taith fel cleifion. Gwelsom fod mesurau ar waith i gefnogi preifatrwydd a chyfrinachedd, gan gynnwys defnyddio deintyddfeydd ar gyfer sgyrsiau sensitif.

Gwelsom fod y prosesau ar gyfer rheoli apwyntiadau a brysbennu cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn addas. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi gallu cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt, a'u bod wedi cael cyngor ar yr hyn i'w wneud mewn argyfwng neu pe baent yn datblygu haint.

Dywedodd y cleifion wrthym fod iechyd y geg wedi cael ei esbonio'n glir iddynt, a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal priodol. Roedd deunyddiau hybu iechyd ar gael, a gwelsom fod dogfennaeth ar gael mewn fformatau gwahanol lle y bo'n bosibl.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn gwneud ymdrech weithredol i gefnogi a chynnal hawliau a thrin unigolion yn gyfartal, gan gynnwys drwy ddarparu cynhyrchion urddas mislif yn y toiledau i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael gofal mewn modd amserol, ac roedd camau ychwanegol yn cael eu cymryd i leihau amseroedd aros
- Roedd brwshys dannedd yn cael eu cynnig i'r cleifion er mwyn hybu iechyd y geg da
- Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol, gan gynnwys nifer o sylwadau cadarnhaol yn uniongyrchol gan gleifion.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y practis mewn cyflwr da a'i fod wedi cael ei adnewyddu'n ddiweddar i safon uchel. Gwelsom fod cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da er mwyn gallu ei ddihalogi'n effeithiol. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer dihalogi cyfarpar amldro yn gadarn ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym fod y staff yn dilyn gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a bod y practis yn 'lân iawn'. Gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau i'r trefniadau diogelwch tân yn y practis, ac aethpwyd i'r afael â'r rhain yn ystod yr arolygiad. Roedd trefniadau iechyd a diogelwch cyffredinol y practis yn briodol, a oedd yn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Ar y cyfan, roedd pecyn cyfarpar brys y practis yn addas. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y gellid cynyddu amlder y gwiriadau ar becyn cymorth cyntaf y practis o wiriadau misol i rai wythnosol. Yn ogystal, roedd y dyddiad defnyddio ar gyfer rhai o'r eitemau mewn droriau ac yn y stordy wedi mynd heibio, a gallent gael eu defnyddio. Roedd y rhain yn cynnwys hylif golchi llygaid, deunyddiau deintyddol i'w defnyddio yn y geg, a chwistrell.

Roedd cofnodion y cleifion yn gyflawn ar y cyfan ac yn rhoi darlun clir o'r gofal a ddarparwyd iddynt. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd cydsyniad llafar bob amser wedi'i gofnodi yng nghofnodion y cleifion, a chadarnhaodd y practis bod camau wedi'u cymryd i wella hynny.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen. Gwnaethom nodi bod y broses sgrinio am ganser y geg yn gadarn a bod rheolwr y practis yn mynd ar drywydd atgyfeiriadau yn rhagweithiol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis roi gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod y dyddiadau defnyddio ar yr holl eitemau yn gyfredol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis mewn cyflwr da ac roedd pob darn o gyfarpar yn gweithio'n gywir
- Roedd y trefniadau diogelu yn addas ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i'r staff ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y practis yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Gwelsom drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith a oedd yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi ac yn gweithio gyda'r cymysgedd sgiliau cywir. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys proses sefydlu gadarn ac roedd tystiolaeth dda bod datblygiad proffesiynol parhaus y staff yn cael ei flaenoriaethu gan reolwr y practis.

Ar y cyfan, roedd y sampl o gofnodion staff a welsom yn gynhwysfawr ac yn bodloni'r gofynion addasrwydd i weithio. Fodd bynnag, nid oedd rhai tystysgrifau ar gael i'w gweld ar unwaith a chawsant eu hanfon i AGIC yn dilyn yr arolygiad. Roedd y sampl o gofnodion staff a welsom yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion hyfforddiant gorfodol.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd y polisi cwynion yn ymddangos yn addas ac roedd ar gael i'r cleifion heb iddynt orfod gofyn am gopi yn yr ystafell aros.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis gynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd i fodloni'r canllawiau cyfredol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd strwythurau rheoli clir a oedd yn helpu'r practis i redeg yn effeithiol
- Roedd polisïau'r practis yn cael eu storio mewn ffolderi a oedd yn cael eu cynnal yn dda ac a oedd yn glir i'r staff ddod o hyd iddynt, eu darllen a'u deall.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis yn 'dda iawn' (19/21) neu'n 'dda' (2/21). Dywedodd y cleifion:

> *"Mae [aelod o'r staff] yn wych. Mae'n gwneud pethau gwych o ran diweddaru'r practis"*.

> *"Staff cyfeillgar iawn sy'n gwneud i chi deimlo'n gyfforddus."*

## Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

### Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom wybodaeth wedi'i harddangos yn yr ardal aros i gleifion a oedd yn rhoi cyngor ar ffyrdd o gynnal iechyd y geg da, yn enwedig i gleifion pediatrig. Roedd brwshys dannedd yn cael eu cynnig i'r cleifion er mwyn hybu iechyd y geg da – menter gadarnhaol yn ein barn ni. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben yn gyfredol ac ar gael i'r cleifion eu gweld yn y dderbynfa ac ar wefan y practis. Roedd y ffioedd ar gyfer triniaethau ac enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) wedi'u harddangos mewn man y gellid eu gweld yn hawdd. Roedd oriau agor a manylion cyswllt brys y practis i'w gweld yn glir ar ddrws ffrynt yr adeilad.

### Gofal urddasol a pharchus

Drwy gydol eu taith fel cleifion, gwelsom fod cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus gan y staff yn y practis hwn. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a'u bod yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau. Roedd pob ymatebydd yn teimlo y gallai gael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, ni waeth beth fo'i nodweddion gwarchodedig. Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod y staff wedi egluro beth roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad, a'u bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth. Roedd sylwadau'r cleifion am staff y practis yn cynnwys:

> *"Cyfeillgar iawn."*

> *"Cyfeillgar, cwrtais ac yn barod i helpu."*

> *“Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar, yn gwrtais ac yn barod i helpu.  Awyrgylch cyfeillgar iawn. Glân iawn ym mhobman. Llawer gwell na'r deintyddion pan oeddwn i'n ifanc!!"*

Gwelsom fod camau cadarnhaol wedi'u cymryd i gefnogi cleifion drwy ddarparu cynhyrchion urddas mislif am ddim yn y toiledau i gleifion. Roedd drysau solet ar ddeintyddfeydd y practis, a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau, ac roedd y staff yn cymryd camau i gynnal urddas y cleifion wrth gael eu gweld yn y deintyddfeydd. Roedd y dderbynfa a'r ardaloedd aros wedi'u cysylltu ond ni wnaethom glywed unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrafod wyneb yn wyneb na thros y ffôn. Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei hailadrodd dros y ffôn, a bod deintyddfeydd yn cael eu defnyddio pan oedd angen cynnal sgyrsiau cyfrinachol.

Roedd contractau'r practis yn cynnwys cymal cyfrinachedd a oedd yn amlinellu cyfrifoldebau'r staff i ddiogelu gwybodaeth am gleifion. Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y dderbynfa.

### Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Nododd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hiechyd y geg wedi cael ei esbonio iddynt mewn ffordd y gallent ei deall, a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, gan gynnwys risgiau a manteision pob opsiwn. Dywedodd yr ymatebwyr fod y costau wedi cael eu cyflwyno'n glir iddynt cyn y driniaeth a'u bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth.

## Amserol

### Gofal amserol

Gwelsom fod prosesau rheoli apwyntiadau effeithiol ar waith, a oedd yn gwneud defnydd priodol o amser yr ymarferwyr. Esboniodd y staff fod yr amser aros rhwng apwyntiadau am driniaeth yn dibynnu ar yr ymarferydd yr oedd cleifion yn dymuno ei weld, a oedd yn amrywio o bythefnos hyd at chwe wythnos. Er ein bod o'r farn bod yr amseroedd aros hyn yn addas ar y cyfan, dywedodd y staff wrthym y byddai hylenydd newydd yn dechrau yn y misoedd nesaf, a’u bod nhw’n gobeithio y byddai hynny’n lleihau amseroedd aros i gleifion.

Roedd y cleifion yn trefnu apwyntiadau ar gyfer y dyfodol wyneb yn wyneb ar ôl eu hapwyntiad, neu dros y ffôn neu ar-lein. Dywedodd y staff wrthym mai anaml y byddai apwyntiadau yn rhedeg yn hwyr, ond pe bai apwyntiadau'n rhedeg dros bum munud yn

hwyr, y byddai'r clinigwyr yn hysbysu'r dderbynfa fel bod modd rhoi gwybod i'r cleifion. Byddai achosion o oedi hirach yn cael eu cyfleu i gleifion dros y ffôn a byddai apwyntiadau eraill yn cael eu cynnig ar gais. Nododd yr ymatebwyr i holiadur cleifion AGIC eu bod wedi ei chael hi'n ‘hawdd iawn’ (15/21) neu'n ‘eithaf hawdd’ (6/21) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau'n cael eu trefnu ar adeg gyfleus i'r cleifion lle bo hynny'n bosibl.

Gwelsom fod tîm y dderbynfa yn defnyddio system addas ar gyfer brysbennu cleifion dros y ffôn er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r rhai yr oedd angen gofal brys arnynt fwyaf, gan ymgynghori â'r ymarferwyr lle bo angen. Gwelsom fod amser wedi'i bennu yn nyddiadur y practis bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn aros mwy na 24 awr i gael ei weld. Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau yn cael ei roi i'r cleifion allu cysylltu â'r practis mewn argyfwng. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn i'w wneud mewn argyfwng neu pe baent yn datblygu haint, a dywedodd y rhan fwyaf y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i helpu i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cyfathrebu â chleifion yn eu dewis iaith. Roedd offer cyfieithu ar gael i'r staff gyfathrebu â chleifion pan oedd angen, ac roedd rhywfaint o'r wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau gwahanol. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn darparu gwybodaeth fwy arbenigol ar gais y cleifion.

### Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod y practis yn cefnogi hawliau unigolion ac yn eu trin yn gyfartal. Roedd polisïau boddhaol ar waith, ac roedd y staff yn cael hyfforddiant penodol i ddiogelu hawliau cleifion ac atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu.

Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi'u gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol i gleifion a chyflogeion, gan gynnwys cynllun un ddeintyddfa i fodloni gofynion aelod o'r staff. Gwelsom fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal drwy ganiatáu i gleifion ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Roedd yr adeilad, i bob golwg, mewn cyflwr boddhaol y tu mewn a'r tu allan. Roedd y practis yn ymddangos yn lân ac roedd wedi cael ei adnewyddu yn ddiweddar. Roedd grisiau yn arwain at y practis, a oedd ar lawr cyntaf ac ail lawr adeilad. Roedd y practis yn cynnwys tair deintyddfa, ystafell ddihalogi benodedig ac ardal aros o faint priodol. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio ac roedd toiledau'r staff a'r toiledau i gleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar. Dywedwyd wrthym fod y staff yn defnyddio'r toiledau neu'r ystafell staff i newid, a bod rhywfaint o gyfleusterau storio personol ar gael. Dywedwyd wrthym fod loceri'n cael eu prynu ar gyfer y staff.

Roedd cyfarpar deintyddol y practis mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Gwelsom fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n briodol, a bod y cyfleusterau clinigol a'r cyfarpar yn cael eu defnyddio i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd polisïau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd tystysgrifau diogelwch ar gael ar gyfer profion offer cludadwy a'r profion bob pum mlynedd ar y gwifrau trydanol sefydlog. Gwelsom fod asesiadau risg ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch wedi cael eu cwblhau a'u bod yn cyrraedd y safonau disgwyliedig.

Gwelsom fod y cyfarpar diogelwch tân yn cael ei gynnal a'i gadw a'i brofi'n rheolaidd, a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis. Nid oedd y profion ar y larwm tân yn cael eu cofnodi mewn rhestr wirio ffurfiol. Fodd bynnag, cafodd hyn ei ddatrys ar unwaith gan y practis drwy neilltuo taflen gofnodi ffurfiol newydd ar gyfer profi'r larwm tân a chynnal ymarferion tân. Yn ystod ein harolygiad ni welsom arwyddion ar gyfer yr allanfa dân i gydymffurfio â'r rheoliadau diogelwch tân. Oherwydd y risg y gallai hyn ei pheri i glaf pe bai tân, ymdriniwyd â'r mater hwn ar ddiwrnod ein harolygiad ac mae'r camau a gymerwyd gan AGIC a'r gwasanaeth wedi'u hamlinellu yn Atodiad A.

Gwelsom fod tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis a gwybodaeth gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'u harddangos.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau boddhaol ar waith er mwyn helpu i gynnal y safon o lendid yn y practis. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r gwaith adnewyddu diweddar, gwelsom fod haen o lwch ar ddolenni drysau rhai o'r cypyrddau yn yr ystafell stoc. Roedd haen o lwch ar y cywasgydd a'r peiriannau sugno yn yr un ystafell storio hefyd. Cafodd y drysau eu glanhau yn ystod yr arolygiad, a chafodd y

cywasgydd a'r peiriannau sugno eu glanhau pan gawsant eu gwasanaethu nesaf, yn ystod yr wythnos yn dilyn yr arolygiad. Ni nodwyd unrhyw bryderon eraill am lendid mewn unrhyw rannau eraill o'r practis, ac roedd y rhestrau gwirio glanhau a welsom yn addas. Dywedodd yr ymatebwyr i holiadur cleifion AGIC fod y practis yn ‘lân iawn’ a'u bod yn teimlo bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i bob aelod o'r staff. Roedd arferion hylendid dwylo cyffredinol yn cael eu hyrwyddo drwy weithdrefnau cadarn ac ar arwyddion yn yr ardaloedd i gleifion a staff. Gwnaethom nodi bod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli anafiadau a achosir gan nodwydd, gydag asesiadau risg yn dogfennu'r peryglon sy'n gysylltiedig ag offer miniog. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol yn cael eu darparu drwy gontract preifat ac roedd y manylion ar gael yn hwylus i'r staff.

Yn yr ystafell ddihalogi benodedig, gwelsom fod cyfarpar ac amgylchedd y practis yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel i helpu i sicrhau bod offer amldro yn cael eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer dihalogi a sterileiddio'r offer hyn yn gadarn, gyda'r practis yn defnyddio peiriant uwchsain i lanhau cyfarpar ac yn defnyddio awtoclaf i'w sterileiddio. Gwelsom fod cofnodion gwasanaethu ar gyfer y ddau beiriant ar waith a'u bod yn briodol, a gwnaethom edrych ar gofnodion gwiriadau a phrofion dyddiol ar gyfer y ddau ohonynt. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y lefel gywir mewn perthynas â dihalogi cyfarpar. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio a'i waredu'n gywir o dan gontract gwaredu gwastraff addas. Roedd y trefniadau ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu unrhyw feddyginiaethau yn gynhwysfawr. Gwelsom fod mesurau addas ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos eu bod yn meddu ar gymwysterau ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a chymorth cyntaf. Roedd y silindrau ocsigen wedi cael eu gwasanaethu'n briodol, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol ac yn gyfredol. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r silindrau ocsigen a diffibriliwr y practis. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y gwiriadau hyn yn cynnwys pecyn cymorth cyntaf y practis. Ychwanegodd y practis y pecyn cymorth cyntaf at y rhestr ar gyfer y gwiriadau wythnosol yn ystod yr arolygiad.

## Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu priodol a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau'n cynnwys manylion cyswllt o fewn yr awdurdod lleol ac yn enwi

arweinydd diogelu. Roedd copi o Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i gyd-fynd â'r polisi hwn. Roedd diweddariadau i bolisïau a gweithdrefnau diogelu yn cael eu cyfleu drwy hyfforddiant a thrwy ap ffonau Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yr oedd gan y staff fynediad iddo ar eu ffonau clyfar. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar ddiogelu plant ac oedolion.

### Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd yr holl gyfarpar clinigol a dyfeisiau meddygol amldro a welsom yn ymddangos mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y dyddiad defnyddio ar gyfer rhai o'r eitemau a'r deunyddiau untro yn nroriau'r deintyddfeydd wedi mynd heibio, gan gynnwys sment bondio ar gyfer gosod coron a chwistrell dyfrhau endodontig. Hefyd, gwelsom hylif golchi llygaid yr oedd y dyddiad defnyddio ar ei gyfer wedi mynd heibio yn un o'r stordai. Roedd yr hylif yn aros i gael ei waredu, ac roedd hylif newydd eisoes wedi'i ddarparu yn y deintyddfeydd. Serch hynny, roedd yn bosibl o hyd y gallai'r hylif golchi llygaid fod wedi cael ei ddefnyddio gan aelod o'r staff mewn argyfwng yn ymwneud â gofal y llygaid. Gallai defnyddio cyfarpar neu ddeunyddiau y mae'r dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio ar berson achosi niwed y gellid ei osgoi. Anogwyd y practis i gynnal gwiriad llawn o'r stoc er mwyn sicrhau bod pob eitem yn gyfredol ac i gynnal archwiliadau o'r stoc yn y dyfodol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod pob eitem yn gyfredol.**

Gwelsom fod pob darn o gyfarpar yn y practis yn cael ei ddefnyddio mewn modd a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol ac roedd y staff a welsom yn ystod yr arolygiad yn ymddangos yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar. Cadarnhaodd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd trefniadau gwasanaethu ar waith ac roedd y practis yn ymateb yn gyflym i unrhyw fethiant system ar gyfer yr holl gyfarpar a archwiliwyd gennym.

Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyflawn, yn drefnus ac yn hawdd ei defnyddio. Gwelsom fod copïau o'r rheolau lleol ar gael yn hwylus wrth ymyl pob dyfais pelydr-X. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau ar gysylltiadau ag ymbelydredd. Roedd y clinigwyr yn amlinellu'n glir y trafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â risgiau a manteision dod i gysylltiad ag ymbelydredd yng nghofnodion y cleifion a gwelsom fod y wybodaeth hon wedi'i harddangos hefyd.

## Effeithiol

### Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu'r cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion y cleifion yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol. Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwnaethom nodi nad oedd gan y practis restrau gwirio clinigol ar waith i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir. Er nad ydynt yn digwydd yn aml, gall achosion o dynnu'r dannedd anghywir achosi niwed sylweddol i glaf a dylid gwneud popeth posibl i'w hatal. Cawsom gadarnhad bod y rhestrau gwirio hyn wedi'u cyflwyno yn fuan ar ôl yr arolygiad.

### Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Ar y cyfan, roedd y cofnodion a welsom yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r gofal a roddwyd i'r cleifion. Roedd y cofnodion yn cynnwys proses gofnodi addas ar gyfer profion sgrinio am ganser y geg, proses siartio sylfaenol lawn, rhesymau dros yr apwyntiad, a hanes meddygol a ddiweddarwyd ym mhob apwyntiad. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r broses o gofnodi cydsyniad llafar i driniaethau. Cawsom gadarnhad bod adran wedi'i hychwanegu at y cofnodion clinigol i annog y clinigwyr i gofnodi hyn yn fuan ar ôl yr archwiliad.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth.

## Effeithlon

### Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr a oedd yn diwallu anghenion eu cleifion ar safle addas. Roedd y cleifion yn symud yn effeithlon ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol. Roedd atgyfeiriadau brys yn cael eu cofnodi'n briodol a'u holrhain yn rhagweithiol mewn modd amserol gan reolwr y practis. Gwelsom fod apwyntiadau yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan aelodau o staff â chymysgedd priodol o sgiliau.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir a oedd yn helpu'r practis i redeg yn effeithiol. Roedd rheolwr y practis yn hyderus yn ei rôl a dywedodd wrthym ei fod yn meddu ar y sgiliau a’r wybodaeth cywir i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol. Roedd y rheolwr yn cael cymorth gan brif ddeintydd / perchennog y practis. Er nad oedd y practis wedi cynnal unrhyw weithgareddau datblygu tîm yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cadarnhaodd ei fod wedi cofrestru i gwblhau Cynllun Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yn fuan ar ôl yr arolygiad, er mwyn ysgogi gwelliannau yn y dyfodol. Clywsom fod cyfarfodydd staff anffurfiol yn cael eu cynnal bob dydd fel arfer a gwelsom fod cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal bob chwarter a bod pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Ar ôl edrych ar gofnodion cyfarfodydd y practis, gwelsom fod trafodaethau yn cael eu cynnal am iechyd a diogelwch, glanhau a chynnal a chadw cyfarpar.

Roedd system addas yn cael ei defnyddio i nodi, cofnodi a rheoli risgiau, materion ac unrhyw ffactorau lliniaru. Cadarnhaodd rheolwr y practis yn fuan ar ôl yr arolygiad fod y practis wedi cofrestru i gael hysbysiadau diogelwch gan Lywodraeth Cymru, ac y byddai'r rhain yn cael eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd, ac y byddai unrhyw hysbysiadau perthnasol yn cael eu harddangos.

Roedd holl bolisïau'r practis yn cael eu cadw ar ffurf copi caled mewn ffolderi a oedd yn cael eu cynnal yn dda ac a oedd yn glir i'r staff ddod o hyd iddynt a'u darllen. Roedd y polisïau a welsom yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, a gwelsom fod newidiadau yn cael eu rhannu â'r staff mewn modd effeithiol.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Roedd amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus ac yn broffesiynol, ac roedd y rhyngweithio a welsom yn dangos eu bod yn amlwg yn cefnogi ei gilydd. Roedd rheolwr y practis yn goruchwylio'r gweithdrefnau sefydlu, ac roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod y rhain yn gadarn ac wedi'u hymsefydlu'n dda. Roedd y practis yn gweithredu system rota i sicrhau bod nifer priodol o staff wedi'u hyfforddi'n addas yn gweithio bob amser. Roedd arfarniadau yn cael eu cynnal bob blwyddyn, ac amlinellodd y rheolwr broses briodol ar gyfer ymdrin ag unrhyw bryderon o ran perfformiad. Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban y practis yn cynnig canllawiau clir i'r staff ar sut i fynegi pryderon.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion personél pedwar aelod o staff sy'n gweithio yn y practis. Yn y cofnodion hyn, gwelsom fod gan bob aelod o'r staff gofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod imiwnedd rhag Hepatitis B wedi'i ddogfennu ar eu cyfer, a bod ganddynt gontractau cyflogaeth. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw wiriadau geirda cyn cyflogi coll er mwyn lliniaru'r peryglon sy'n gysylltiedig â gwybodaeth goll. Gwelsom fod gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff. Fodd bynnag, cafodd gwiriad un o'r aelodau hyn o'r staff ei gwblhau yn 2012 ac nid oedd unrhyw wiriad dilynol na hunan-ddatganiad wedi'i gwblhau. Cawsom gadarnhad yn fuan ar ôl yr arolygiad bod y ffurflen gais wedi'i chyflwyno ar gyfer yr aelod hwn o'r staff.

Roedd y cofnodion staff a welsom yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion hyfforddiant gorfodol. Roedd y staff yn cael digon o amser i gwblhau eu hyfforddiant, a dywedwyd wrthym eu bod hefyd yn cael eu cefnogi i ymgymryd â datblygiad ychwanegol penodol i'r rôl, a oedd wedi'i adlewyrchu yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd gan reolwr y practis system effeithiol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Roedd y practis yn defnyddio nyrs ddeintyddol asiantaeth o bryd i'w gilydd, ond nid oedd gan y practis dystiolaeth o wiriadau yn erbyn cofrestr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, statws ei gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ei chymeriad na'i hyfforddiant. Cawsom dystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad fod y wybodaeth hon bellach ar ffeil ac y byddai'n cael ei hychwanegu at y cofnodion staffio eraill i'w gwirio'n rheolaidd.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd neges destun yn cael ei hanfon at gleifion ar ôl eu hapwyntiad yn gofyn iddynt gwblhau arolwg cleifion, ac roedd arolygon a gwblhawyd yn cael eu gwirio gan reolwr y practis. Byddai ymatebion i adborth yn cael eu hychwanegu at y cylchlythyr chwarterol i gleifion.

Roedd y polisi cwynion yn ymddangos yn addas ac roedd ar gael i'r cleifion heb iddynt orfod gofyn am gopi yn yr ystafell aros. Roedd y weithdrefn gwyno yn enwi'r aelod o staff y dylai cleifion gysylltu ag ef, ac yn nodi amserlen glir ar gyfer ymateb i unrhyw gŵyn a'i datrys. Roedd unrhyw gwynion llafar yn cael eu cofnodi mewn llyfr a oedd yn cael ei gadw yn y dderbynfa a'u hadolygu gan reolwr y practis yn rheolaidd. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i amlinellu yn y polisi cwynion i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom fod un gŵyn a wnaed yn ystod

y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cael ei thrin yn unol â pholisi'r practis o'r dechrau i'r diwedd.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

### Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cynnal o'r gweithdrefnau rheoli heintiau, radiograffau, gwastraff clinigol, ac iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, ni welsom archwiliadau ar wella ansawdd cofnodion cleifion na phresgripsiynu gwrthfiotigau. Hefyd, ni welsom unrhyw fath o adolygiad gan gymheiriaid mewn perthynas â chofnodion cleifion. Mae gweithgareddau archwilio yn gweithredu fel sbardun i wella ansawdd er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau gwell i gleifion a'r gwasanaeth yn gyffredinol.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddechrau cynnal archwiliadau o gardiau cofnodion cleifion, gan gynnwys gweithgareddau adolygu cymheiriaid ochr yn ochr ag archwiliadau o brosesau presgripsiynu gwrthfiotigau.**

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Yn ystod ein harolygiad ni welsom arwyddion ar gyfer yr allanfa dân i gydymffurfio â'r rheoliadau diogelwch tân. | Mewn argyfwng, mae'n bosibl na fyddai'r staff na'r cleifion yn gallu cyrraedd man diogel yn gyflym. | Trafodwyd y mater hwn â rheolwr y practis yn ystod yr arolygiad. | Cafodd arwyddion diogelwch tân sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau eu harchebu a'u harddangos. |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Agincourt Dental

## Dyddiad yr arolygiad: 27 Ebrill 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad |
|---|---|---|
| 1. | Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol pellach yn ystod yr arolygiad hwn. | |

# Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Agincourt Dental**

**Dyddiad yr arolygiad: 27 Ebrill 2026**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Gwnaethom nodi bod y dyddiad defnyddio ar gyfer rhai o'r eitemau a'r deunyddiau untro yn nroriau'r deintyddfeydd wedi mynd heibio, gan gynnwys sment bondio ar gyfer gosod coron a chwistrell dyfrhau endodontig. Hefyd, gwelsom hylif golchi llygaid yr oedd y dyddiad defnyddio ar ei gyfer wedi mynd heibio yn un o'r stordai. Anogwyd y practis i gynnal gwiriad llawn o'r stoc er mwyn sicrhau bod pob eitem yn gyfredol ac i gynnal archwiliadau o'r stoc yn y dyfodol. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefnau cadarn ar waith i sicrhau bod pob eitem yn gyfredol | Rheoliad 13 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 | Mae'r practis wedi cynnal archwiliad llawn o'r holl gynhyrchion yn y deintyddfeydd, yr ystafell stoc, yr ystafell ddihalogi a'r pecyn cyfarpar brys, yn ogystal â'r holl gynhyrchion iechyd y geg. Mae'r dyddiadau defnyddio ar eu cyfer wedi'u cofnodi mewn llyfr gwaith Excel ar gyfer pob ardal, fel y gellir ei ddiweddaru wrth i eitemau gael eu cylchdroi er mwyn sicrhau bod pob eitem yn cael ei defnyddio cyn i'r dyddiad ar ei chyfer fynd heibio. Rwyf hefyd wedi cynnwys hyn ar gofnodlyfr llawn o ddyddiadau defnyddio ar Excel, a fydd yn cael ei archwilio'n fisol. Mae gan bob ardal daflen gofnodi fel bod aelodau eraill o'r staff yn gallu diweddaru'r gwaith papur perthnasol wrth i stoc gael ei defnyddio ac wrth i stoc newydd gyrraedd. | Caroline Morgan<br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | Ni welsom archwiliadau ar wella ansawdd cofnodion cleifion na phresgripsiynu gwrthfiotigau. Hefyd, ni welsom unrhyw fath o adolygiad gan gymheiriaid mewn perthynas â chofnodion cleifion. Mae gweithgareddau archwilio yn gweithredu fel sbardun i wella ansawdd er mwyn helpu i gyflawni canlyniadau gwell i gleifion a'r gwasanaeth yn gyffredinol. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddechrau cynnal archwiliadau o gardiau cofnodion cleifion, gan gynnwys gweithgareddau adolygu cymheiriaid ochr yn ochr ag archwiliadau o brosesau presgripsiynu gwrthfiotigau. | Rheoliad 16 (1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 | Mae'r archwiliadau wedi cael eu llunio. Bydd y rhain yn cael eu cynnal ar brosesau cadw cofnodion a phresgripsiynu gwrthfiotigau ochr yn ochr â'r archwiliadau eraill rydym eisoes yn eu cynnal. Caiff canlyniadau'r archwiliadau hyn eu trafod â holl aelodau'r tîm mewn cyfarfodydd fel y gallwn, fel tîm, gyflawni canlyniadau gwell a gwella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n cleifion. Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella nid yn unig i'n cleifion, ond hefyd i holl aelodau'r tîm. Yn ddibynnol ar y canlyniadau, caiff yr archwiliadau hyn eu cynnal bob 3-6 mis. | Caroline Morgan<br>Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Caroline Morgan**

**Swydd: Rheolwr y Practis** **Dyddiad: 12/6/26**